Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/KW/3256/18

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

21 Medi 2018

Annwyl Lynne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Mehefin ynghylch adroddiad y Pwyllgor, sef *Cyrraedd y nod?*, yn dilyn ei ymchwiliad i ddull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran targedu cyllid at garfannau penodol o ddisgyblion, yn enwedig disgyblion difreintiedig.

Rwy'n croesawu'r adroddiad ac rwy'n falch o glywed bod y Pwyllgor yn cydnabod yr effaith gadarnhaol y mae'r polisïau yn y maes hwn wedi'i chael. Mae'r ymchwiliad wedi codi proffil anghenion dysgwyr difreintiedig ledled y sector, ac wedi tynnu sylw at y manteision sy'n gallu dod yn sgil y grant. Mae hyn yn ganlyniad cadarnhaol. Mae cryfder y dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod ein darpariaeth ar gyfer dysgwyr difreintiedig yn bodloni anghenion pob dysgwr yn unigol, a bod angen ymrwymiad parhaus pawb sy'n ymwneud â hyn.

Byddaf yn parhau i ymdrechu er mwyn sicrhau bod cynifer o rwystrau â phosibl yn cael eu dileu. Bydd hynny'n rhoi pob cyfle i'n dysgwyr mwyaf difreintiedig gyrraedd eu potensial llawn ac yn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael yr effaith fwyaf posibl.

Er bod yr ymchwiliad, yn ei hanfod, yn canolbwyntio ar edrych yn ôl, rwy'n siŵr bod y Pwyllgor yn ymwybodol o'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ddiwygio'r system addysg yn ehangach. Mae hyn yn cynnwys diwygio'r cwricwlwm a threfniadau o ran atebolrwydd. Rwy'n hyderus bod angen y newidiadau hyn a byddant yn cael effaith gadarnhaol ar ein dysgwyr difreintiedig yn y tymor hir. Er hynny, rwy'n cytuno'n llwyr â'r Pwyllgor bod rhaid ystyried effaith y newidiadau hynny ar ein dysgwyr difreintiedig a'r dysgwyr sy'n agored i niwed dros y tymor byr.

Atodaf dabl sy'n nodi ymateb Llywodraeth Cymru i bob argymhelliad. Rwy'n falch o allu derbyn y rhan helaeth o argymhellion y Pwyllgor. Rwyf wedi derbyn rhai

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

argymhellion mewn egwyddor, ac wedi nodi'r rhesymeg y tu ôl i hyn. Ni allaf dderbyn nifer fechan o'r argymhellion ac eto rwyf wedi esbonio fy rhesymeg.

Rwyf wedi addo rhoi mwy o wybodaeth i'r Pwyllgor mewn perthynas â nifer o argymhellion, a byddaf yn gwneud hynny wrth i wybodaeth ddod i law neu wrth i waith ddatblygu.

Diolch yn fawr i bawb ar y Pwyllgor a phawb a gefnogodd eich ymchwiliad.

Yn gywir



Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Argymhellion

A1: Dylai Llywodraeth Cymru asesu'n rheolaidd faint o fuddsoddiad sydd ei angen ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion o ran gwerth am arian a chost cyfle. Yn benodol, dylai Llywodraeth Cymru fonitro'n agos ac ar sail barhaus effaith y Grant Datblygu Disgyblion ar y disgyblion y mae'r grant yn eu targedu.

Derbyn

Rwy'n falch bod y pwyllgor yn cydnabod yr effaith gadarnhaol y mae'r Grant Datblygu Disgyblion wedi'i chael a'r cyfraniad a wnaed ganddo at leihau'r bwlch cyrhaeddiad.

Yn gyntaf, hoffwn roi sicrwydd bod Llywodraeth Cymru yn asesu'n rheolaidd yr holl fuddsoddiadau ar draws ei phortffolio, gan gynnwys y Grant Datblygu Disgyblion a byddwn yn parhau i wneud hynny. Mae'n debygol o fod yn deg dweud bod y Grant Datblygu Disgyblion yn un o'r polisïau addysg sy'n cael ei werthuso'n fwyaf trylwyr.

Yn dilyn sefydlu'r Grant Datblygu Disgyblion yn 2012, cynhaliwyd gwerthusiad tair blynedd (2013/14-2015/16) i sefydlu effeithiolrwydd y grant. Yn fwy diweddar comisiynwyd gwerthusiadau o'r elfennau Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Blynyddoedd Cynnar. Nod yr astudiaeth Grant Datblygu Disgyblion-Plant sy'n Derbyn Gofal oedd gwerthuso'r gwaith o weithredu a rheoli'r grant ers y newidiadau i'w ddyrannu a'i reoli ym mis Ebrill 2015. Cynhaliwyd gwerthusiad proses cynnar yn ystod ail flwyddyn y Grant Amddifadedd Disgyblion Blynyddoedd Cynnar (a adwaenir bellach fel Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar) i werthuso sut roedd y grant yn cael ei weithredu gan ymarferwyr ar draws y lleoliadau gwahanol, a oedd yn cael ei weithredu fel y'i bwriadwyd ac i nodi unrhyw arfer gorau sy'n dod i'r amlwg. Cafodd gwerthusiad o'r Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar ei gyhoeddi ar 20 Medi a chaiff y gwerthusiad Grant Datblygu Disgyblion-Plant sy'n Derbyn Gofal ei gyhoeddi'n ddiweddarach yn yr hydref. Nod y tri gwerthusiad oedd rhoi sicrwydd bod y gweithredu cychwynnol yn mynd rhagddo fel y bwriadwyd. Cyn comisiynu unrhyw ymchwil bellach rwyf am fyfyrio ar y dystiolaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth arall rydym wedi'i chasglu, gan gynnwys gan yr haen ganol a chan ysgolion eu hunain.

Rwy'n cytuno'n llwyr bod yn rhaid i ni sicrhau ein bod yn sicrhau effaith fwyaf posibl y cyllid a pharhau i gynorthwyo'n dysgwyr dan anfantais yn effeithiol. Bydd unrhyw werthusiad yn y dyfodol yn ystyried y gwersi a ddysgwyd gennym hyd yma. Er enghraifft, erbyn hyn mae gan y rhan fwyaf o ysgolion systemau olrhain yn eu lle ac mae gennym setiau data pellach hefyd sy'n rhychwantu nifer o flynyddoedd a bydd hyn yn rhoi mwy o fanwl gywirdeb. Bydd pob un ohonynt yn galluogi dadansoddiad mwy cadarn yn y dyfodol. Rhoddir ystyriaeth o ran sut y gallwn weithio gydag ysgolion i ddefnyddio'r data sy'n cael eu coladu'n llawn a chryfhau monitro ar gyfer gwerthuso yn y dyfodol, bydd gwaith i ddatblygu canllawiau newydd ar y Grant Datblygu Disgyblion yn ystyried beth arall y gellir ei wneud yn genedlaethol i gynorthwyo'r monitro a gwerthuso hwn yn lleol.

.

Ynghyd â'r gwerthusiadau annibynnol tymor hwy mae gan Lywodraeth Cymru ddulliau yn eu lle ar gyfer monitro rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys:

- ein Heiriolwr Codi Cyrhaeddiad;
- cyfarfodydd Herio ac Adolygu tymhorol lle mae consortia'n adrodd i'r Llywodraeth ac yn cael eu dwyn i gyfrif am reoli'r Grant Datblygu Disgyblion a chyflawni canlyniadau; a
- chyfarfodydd bob hanner tymor rhwng fy swyddogion a chynghorwyr strategol Grant Datblygu Disgyblion y consortia, sy'n canolbwyntio ar weithredu, monitro effaith a mentora cymheiriaid.

Yn rhinwedd ei swydd fel Eiriolwr Codi Cyrhaeddiad, mae Syr Alasdair Macdonald yn ymweld ag ysgolion ledled Cymru yn rheolaidd. Mae cyfoeth gwybodaeth a phrofiad Syr Alasdair yn galluogi gwerthuso parhaus a nodi arfer gorau. Mae hyn yn darparu asesu amser real ar lefel weithredol mewn cyferbyniad â'r oedi a grëir gyda gwerthuso a chasglu data yn ffurfiol. Cydbwysedd angenrheidiol er mwyn sicrhau bod ein systemau'n gwella'n barhaus.

Mae penodi cynghorwyr strategol Grant Datblygu Disgyblion wedi gwella rôl y consortia. Mae'r cynghorwyr yn cael eu cefnogi a'u harwain gan Syr Alasdair. Bydd eu ffocws ar anghenion dysgwyr dan anfantais yn cryfhau'r cymorth a roddir i ysgolion. Ein nod yw sicrhau bod gan y cynghorwyr fynediad i'r dulliau angenrheidiol, gan gynnwys arfer gorau, ymchwil a data i godi cyrhaeddiad ein dysgwyr mwyaf agored i niwed. Yn bwysig, bydd yn ofynnol iddynt hefyd gryfhau gweithio ar y cyd ledled Cymru er mwyn sicrhau bod arfer da yn cael ei rannu ac adeiladu arno.

A2:Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei dull o dargedu cyllid i wella canlyniadau addysgol yn gydlynol, gan fynd i'r afael ag unrhyw anghysonderau rhwng yr egwyddor sy'n sail i'r Grant Datblygu Disgyblion a dirwyn grantiau addysg eraill wedi'u targedu i ben. Wrth wneud hyn, dylai Llywodraeth Cymru ddangos y rhesymau am unrhyw wahaniaethau yn ei dull gweithredu.

Derbyn

Fel y mae adroddiad y Pwyllgor yn amlinellu, defnyddiodd Llywodraeth Cymru ddull canolog o ran y Gyllideb Ddrafft yn 2018-19 i flaenoriaethu cyllid i Lywodraeth Leol ar gyfer ysgolion rheng flaen a gofal cymdeithasol. Wrth i'r Gyllideb Ddrafft fynd rhagddi, cymerwyd camau i gadarnhau dealltwriaeth a rhoi gwybodaeth ychwanegol fel rhan o'r broses graffu, gan ymateb i anghenion y Pwyllgor a rhanddeiliaid.

Mae gennym ymrwymiad clir a hirsefydlog i gyllid ysgolion. Er gwaethaf rhaglen gyni barhaus Llywodraeth y DU a gostyngiadau parhaus i'r gyllideb ar gyfer Cymru, rydym wedi cymryd camau gweithredu i ddiogelu cymorth awdurdodau lleol i wasanaethau

ysgolion rheng flaen.

Yn y blynyddoedd diwethaf rydym wedi cymryd camau gweithredu i leihau nifer y grantiau addysg unigol ac rydym wedi ad-drefnu ein cyllid grant i ddau yn unig – y Grant Datblygu Disgyblion, a'r Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol cyfunol, sy'n cynnwys yr holl gyllid grant consortia rhanbarthol arall gan gynnwys y Grant Gwella Addysg. Eleni, rydym wedi ymestyn y dull ad-drefnu hwn i'r grantiau a ddarperir i awdurdodau lleol a byddwn yn adeiladu ar hyn dros y blynyddoedd nesaf. Rydym wedi cymryd camau gweithredu hefyd i leihau'r costau gweinyddu a rheoli sy'n gysylltiedig â'n grantiau, er enghraifft symud cyllid grant i drefniadau sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau, lleihau rhai o'r gofynion adrodd a defnyddio gwybodaeth bresennol am systemau fel cynlluniau busnes consortia a'r strwythurau llywodraethu rhanbarthol i leihau adrodd ychwanegol. Fel enghraifft, mae cymal uchafswm gweinyddu / rheoli y Grant Gwella Addysg wedi lleihau i 0.75% yn unig o gyfanswm y grant dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae hyn yn dangos dull cytbwys ac ystyriol, lle rydym yn ymwybodol o'r angen i leihau biwrocratiaeth a beichiau gweinyddol, tra hefyd yn cadw rhai grantiau penodol i oruchwylio'n uniongyrchol y gwaith o ddarparu canlyniadau mewn meysydd blaenoriaeth, gan gynnwys y Grant Datblygu Disgyblion.

Rydym yn gweithio'n agos gyda llywodraeth leol a chonsortia i sicrhau bod ein blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer ysgolion yn cael eu hintegreiddio i flaenoriaethau rhanbarthol a lleol ar gyfer cyflawni.

A3:Dylai Llywodraeth Cymru gymryd pob cam i bwysleisio y dylid defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i gefnogi pob dysgwr cymwys, gan gynnwys y rhai mwy abl a thalentog. Dylai hyn gynnwys diweddaru ei chanllawiau ar y Grant Datblygu Disgyblion, a gyhoeddwyd yn 2015, yn unol â hynny.

Derbyn

Rwy'n falch bod yr adroddiad yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir o ran ei disgwyliadau y dylai'r Grant Datblygu Disgyblion gael ei ddefnyddio i gynorthwyo'r holl ddysgwyr cymwys i wneud cynnydd. Rwyf wedi cymryd pobl cyfle i ailadrodd bod hyn yn cynnwys dysgwyr mwy abl hefyd. Rwyf wedi gofyn i gynghorwyr strategol Grant Datblygu Disgyblion y consortia i sicrhau bod hyn yn flaenoriaeth.

Rydym wedi gwneud nifer o newidiadau i'r Grant Datblygu Disgyblion ers i mi fod yn y swydd, nid yn lleiaf i'w enw ac mae fy swyddogion yn gweithio gyda'r cynghorwyr i ddiweddaru a diwygio canllawiau presennol y Grant Datblygu Disgyblion er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol ac yn hygyrch. Bydd y canllawiau hyn hefyd yn adlewyrchu'r angen i sicrhau bod anghenion pob dysgwr yn cael eu diwallu.

Wrth symud ymlaen, bydd y trefniadau gwerthuso a gwella diwygiedig hefyd yn adlewyrchu'r dull hwn ac yn ysgogi ymddygiad yn ein hysgolion wrth i ni symud i fesur cynnydd dysgwyr unigol. Mae'r mesurau dros dro yn dileu'r ffocws cul ar ddisgyblion sydd ar y ffin rhwng gradd C a D gan alluogi ysgolion i dargedu cymorth tuag at ddysgwyr mwy abl.

A4: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 a threfniadau atebolrwydd ysgolion yn cymell ysgolion i gefnogi disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i gyflawni graddau mor uchel â phosibl.

Derbyn

Fel y noda'r Pwyllgor yn ei adroddiad, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymryd camau tuag at yr amcan hwn drwy'r ymrwymiad i weithredu'r 'mesurau interim' yng Nghyfnod Allweddol 4 o 2019. Bydd y dull o ddefnyddio mesurau sy'n adlewyrchu cyrhaeddiad ar bob gradd yn cymell ysgolion i gynorthwyo *pob* dysgwr i gyflawni ei ganlyniadau gorau. Canolbwyntio ar gynnydd dysgwyr unigol yn hytrach na bodloni mesurau sy'n ysgogi ymddygiad anfoddhaol. Mae gofyniad penodol yn cael ei gyflwyno i ysgolion ddadansoddi gwahaniaethau o ran cyrhaeddiad rhwng dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim; datblygiad pwysig iawn.

Yn y tymor hwy, mae newidiadau mwy cynhwysfawr yn cael eu datblygu fel rhan o'r gwerthusiad newydd a threfniadau gwella a fydd yn cael eu cyflwyno ochr yn ochr â'r cwricwlwm newydd. Un sbardun o bwys wrth ddylunio'r trefniadau newydd hyn yw'r dymuniad i lywio oddi wrth system atebolrwydd lle mae llawer yn y fantol a gwahanu atebolrwydd a gwerthuso ysgolion ar gyfer gwella. Bydd hyn yn helpu ysgolion i nodi lle mae angen diffuant am gymorth, a'u galluogi i ganolbwyntio ar hyn, heb gael eu harwain gan bwysau mesurau perfformiad meintiol a welir y tu allan i'r cyd-destun.

Cyn y trefniadau hyn yn y dyfodol, ac ochr yn ochr â chyflwyno'r 'mesurau interim', bydd Llywodraeth Cymru yn dechrau mynd i'r afael â'r mannau o bwysau yn y system ac yn mynd i'r afael â'r diwylliant ynghylch y defnydd o fesurau perfformiad, a'r ddealltwriaeth o'u diben, a sut i ddefnyddio'r data'n effeithiol. Dylai hyn, yn y cyfamser, helpu i leihau'r pwysau ar ysgolion sydd wedi'u cymell i ganolbwyntio ymdrechion ar amrywiaeth cul o ddisgyblion yn hytrach na dyrannu cymorth yn gymesur i fynd i'r afael ag anghenion yr holl ddisgyblion.

A5: Os yw Llywodraeth Cymru am i ysgolion ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer disgyblion sydd wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, dylai ariannu dyraniadau'r Grant Datblygu Disgyblion ar y sail honno, h.y. fesul disgybl a fu'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, yn hytrach na disgwyl i ysgolion gefnogi disgyblion ychwanegol gan ddefnyddio dyraniad grant sy'n seiliedig ar gipolwg o'r lefelau cymhwystra dros un flwyddyn.

Gwrthod

Rydym wedi ymgymryd â modelu helaeth ym mharamedrau'r cwantwm cyffredinol presennol o arian, yn fwyaf diweddar cyn cadarnhau dyraniadau ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol a'r blynyddoedd ariannol nesaf. Arweiniodd hyn at weithredu'r dyraniad gorau posibl, fforddiadwy ym marn y Llywodraeth. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod carfan ehangach o ddysgwyr ar y cyrion a fyddai'n cael budd o gymorth ychwanegol hefyd. Dyna pam, o fis Ebrill 2018 rydym wedi rhoi mwy o hyblygrwydd i ysgolion drwy ehangu'r diffiniad ar gyfer defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion.

A6. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried mabwysiadu cyfnod amser mwy hirdymor ar gyfer pennu cymhwystra ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion i'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim fel bod modd cefnogi disgyblion a fu'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y gorffennol diweddar hefyd. Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i drothwyon cymhwystra gwahanol, er enghraifft dwy, tair, pedair neu bum mlynedd, yn erbyn symiau gwahanol fesul plentyn er mwyn penderfynu ar y model fforddiadwy gorau posibl gan ystyried y cyfaddawdau cysylltiedig.

Gwrthod

Fel y nodwyd yn ein hymateb i Argymhelliad 5, gwnaed gwaith modelu helaeth i sicrhau ein bod yn darparu'r ateb gorau i Gymru gyfan. Dadansoddodd Llywodraeth Cymru effaith modelau amrywiol, gan gynnwys:

- ymestyn y meini prawf cymhwystra;
- cynyddu dyraniadau;
- dyrannu cyllid gan ddefnyddio setiau data eraill;
- pennu dyraniadau; a
- trothwyon isafswm cyllid.

O ganlyniad, o fis Ebrill 2018 roeddem yn gallu:

- rhoi diffiniad mwy hyblyg ar gyfer defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion, gan gryfhau arweinyddiaeth a gwneud penderfyniadau mewn ysgolion;
- cynyddu Grant Datblygu Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar £100 fesul dysgwr cymwys i £700;
- gweithredu fformiwla fwy tryloyw ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar mewn ysgolion cynradd;
- rhoi mwy o ddiogelwch a chynaliadwyedd i ysgolion ar gyfer blaengynllunio drwy bennu dyraniadau tan fis Mawrth 2020; a
- sicrhau bod yr holl ysgolion yn cael lefel sylfaenol o gymorth, drwy ddyrannu o leiaf cyfradd un disgybl i bob ysgol yng Nghymru.

Cynhaliwyd y gwaith hwn mewn partneriaeth â chonsortia er mwyn sicrhau ein bod yn gallu lleihau unrhyw effaith negyddol ar

ysgolion. O ganlyniad i'r ymgysylltu hwn, nodwyd risg i ysgolion newydd a'r rhai â chapasiti cynyddol ac rydym wedi gallu rhoi cymorth ychwanegol yn ei le i fynd i'r afael â'r materion penodol hyn.

A7. Os bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu parhau i benderfynu lefel dyraniadau'r Grant Datblygu Disgyblion ar sail cyfrifiad y pen un flwyddyn, dylai ddyrannu'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer 2018-19 a 2019-2020 i ysgolion ar sail eu cyfrifiad uchaf o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ôl CYBLD 2016 neu'r data diweddaraf sydd ar gael.

Gwrthod

Nid yw hyn yn ymarferol oherwydd bod y dyraniadau ar gyfer 2018-19 a 2019-20 wedi'u cadarnhau eisoes. Roedd y dyraniadau'n sefydlog am ddwy flynedd er mwyn i ysgolion elwa ar y sefydlogrwydd a ddaw yn sgil cynllunio tymor hwy.

A8: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod swyddogion arweiniol y Grant Datblygu Disgyblion a benodwyd yn ddiweddar yn y consortia rhanbarthol yn rhagweithiol o ran monitro, a herio lle bo angen, defnydd ysgolion o'r Grant Datblygu Disgyblion, er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf a'r gwerth mwyaf am arian.

Derbyn

Mae cynghorwyr strategol y Grant Datblygu Disgyblion yn hollbwysig i gam nesaf y gwella ac rydym am sicrhau bod ysgolion yn defnyddio'r cynghorwyr i'r eithaf, gan gydnabod y buddion y gallant eu rhoi i ysgolion. Mae cynorthwyo, monitro, a lle y bo'n angenrheidiol herio, defnydd ysgolion o'r Grant Datblygu Disgyblion yn hanfodol i rôl y cynghorwyr. Mae hyn yn eglur yn y telerau ac amodau grant y mae pob consortia'n ymrwymo iddynt.

Dim ond drwy fabwysiadu'r dull hwn y byddwn yn gallu sicrhau effaith fwyaf posibl y grant ac ymgorffori arfer gorau ar draws y rhanbarthau. Mae cymorth Syr Alasdair Macdonald i'r cynghorwyr yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i fod yn rhagweithiol a chynnal momentwm. Mae cyfarfodydd bob hanner tymor gyda'r cynghorwyr yn cael eu harwain gan Syr Alasdair gyda ffocws ar gynnydd gan gynnwys blaenoriaethau; llwyddiannau ac arfer gorau; a heriau. Mae hyn hefyd yn darparu datblygiad proffesiynol parhaus i'r cynghorwyr er mwyn sicrhau eu bod mewn sefyllfa dda i gynorthwyo ysgolion.

A9: Dylai Llywodraeth Cymru annog ysgolion a rhoi dyletswydd arnynt i roi ystyriaeth lawn i'r dystiolaeth a'r arbenigedd sydd ar gael ar yr hyn sy'n ddefnydd effeithiol o'r Grant Datblygu Disgyblion, gan alluogi arweinwyr ysgolion i wneud penderfyniadau priodol ar gyfer eu disgyblion eu hunain. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag Estyn i sicrhau ei fod yn chwarae rôl lawn wrth fonitro hyn.

Derbyn

Rydym yn disgwyl i'r cynghorwyr strategol Grant Datblygu Disgyblion godi ymwybyddiaeth o'r dystiolaeth; dulliau; a'r arfer gorau sydd ar gael. Eu rôl yw cynorthwyo ysgolion lle y bo angen i wneud penderfyniadau effeithiol a gwerthuso effaith y penderfyniadau a'r ymyriadau hynny. Byddwn yn gweithio gyda'r cynghorwyr er mwyn sicrhau bod canllawiau newydd y Grant Datblygu Disgyblion yn diwallu anghenion ysgolion.

Yn ddiweddar gwnaethom lansio blog Syr Alasdair, sy'n atgyfnerthu'r negeseuon am yr hyn sy'n gweithio mewn modd cyflym a hygyrch. Cyhoeddwyd y post cyntaf ar 31 Gorffennaf ac mae dros 600 wedi edrych arno eisoes.

Y llynedd gwnaethom weithio gydag Estyn ar ei ganllawiau atodol ar gyfer arolygu tlodi ac anfantais gymdeithasol i ategu'r trefniadau arolygu a ddaeth yn weithredol o fis Medi 2017. Rydym yn parhau i weithio gyda'r arolygiaeth i sicrhau bod ysgolion yn cynorthwyo dysgwyr dan anfantais yn briodol.

A10: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod systemau a phrosesau effeithiol ar gael bob amser i bob ysgol olrhain cynnydd disgyblion. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y consortia rhanbarthol yn rhoi cyngor a chymorth clir i ysgolion yn eu rhanbarth ynglŷn â'r dulliau sydd ar gael.

Derbyn

Nodwyd bod olrhain cynnydd disgyblion yn gryfder mewn ysgolion da yng ngwerthusiad IPSOS Mori/WISERD. Byddwn yn gweithio gyda'r cynghorwyr strategol Grant Datblygu Disgyblion er mwyn sicrhau bod y canllawiau Grant Datblygu Disgyblion yn adeiladu ar y cryfder hwn a bod ysgolion yn parhau i wella eu cymorth i ddysgwyr dan anfantais. Mae deall anghenion dysgwyr unigolion a grwpiau o ddysgwyr yn allweddol i gynorthwyo canlyniadau gwell. Gall y wybodaeth a gesglir o olrhain data o'r fath fod yn ganolog i hyn ac rwyf wedi gweld llawer o enghreifftiau gwych o ddata o'r fath yn cael eu defnyddio'n effeithiol mewn ysgolion ledled Cymru.

A11: Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar frys, drwy ei chanllawiau ar y Grant Datblygu Disgyblion a'i chyfarwyddyd i gonsortia, i wella sut y defnyddir y Grant Datblygu Disgyblion i wella presenoldeb disgyblion ac ymgysylltiad disgyblion â'u haddysg.

Derbyn

Ein gweledigaeth yw creu amgylchedd cynhwysol sy'n ymgysylltu a lle mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn barod i ddysgu. Os bydd dysgwyr yn cael budd llawn o'u haddysg, y profiadau a gynigir gan yr ysgol, a chyrraedd eu potensial llawn, mae'n hanfodol

eu bod yn mynd i'r ysgol yn rheolaidd ac ymgysylltu pan fyddant yno. Mae hyn yn arbennig o wir i ddysgwyr dan anfantais lle mae mwy o ddibyniaeth ar ysgol i ddarparu gweithgareddau cyfoethogi a meithrin dyhead.

Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid i nodi pa gymorth a chanllawiau sydd eu hangen i wella sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth i gynnal presenoldeb ysgolion ac adeiladu arno. Rydym yn adolygu'r Fframwaith Presenoldeb Cymru Gyfan i sicrhau bod trefniadau'n parhau i ddarparu cymorth effeithiol i awdurdodau lleol, ysgolion, rhieni a dysgwyr, gan gynnwys dysgwyr dan anfantais.

Byddwn hefyd yn myfyrio ar hyn yng nghyd-destun gwaith i ddiwygio'r canllawiau Grant Datblygu Disgyblion, ac rwy'n disgwyl i'r rhain dynnu sylw at astudiaethau achos o arfer gorau, gan gynnwys mewn perthynas â phresenoldeb ac ymgysylltu.

A12. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar frys i wella a rhoi mwy o bwyslais ar sut y mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei ddefnyddio i wella ymgysylltiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim er mwyn lleihau'r nifer sy'n cael gwaharddiadau cyfnod penodol.

Derbyn

Mae *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl* yn cydnabod pwysigrwydd llesiant dysgwyr, gan roi hyn wrth wraidd y system addysg gynhwysol, ac mae'n nodi ein bwriad i gryfhau'r cydweithio rhwng ysgolion prif ffrwd a darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol. Gall darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol ddarparu gwasanaeth hanfodol i ddysgwyr agored i niwed sydd mewn perygl o ymddieithrio oddi wrth addysg drwy ddarparu cymorth wedi'i deilwra ac unigryw i ddiwallu anghenion annodweddiadol dysgwyr heriol.

Rydym eisoes wedi diwygio ein canllawiau i'w gwneud yn glir y dylai eithrio fod yn fater o ddewis olaf wrth ymdrin â disgyblion ag ymddygiad heriol – os ydym yn mynd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwael rhaid i ni ddeall yr achosion sylfaenol yn gyntaf. Mae gan systemau olrhain effeithiol rôl bwysig i'w chwarae o ran nodi ac ymyrryd yn gynnar.

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod yr Adrannau Addysg, Plant a Chymunedau, ac Iechyd wedi cyllido ar y cyd, gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ganolfan Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE). Bydd y Ganolfan yn cynyddu'r ddealltwriaeth o ACE fel bod staff ysgolion yn gallu rhoi'r cymorth a'r ymyriad mwyaf priodol i ddysgwyr agored i niwed a all fod mewn perygl o gael eu gwahardd o'r ysgol neu ymddieithrio oddi wrth addysg.

A13. Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio ar fyrder i'r rheswm pam mae'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys wedi ehangu yn 2017 a dysgu gwersi o hyn cyn gynted â phosibl a'u rhoi ar waith. Dylai hyn ganolbwyntio ar oblygiadau'r newidiadau i fesurau perfformiad yn 2017 a sut mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei ddefnyddio i wella gallu disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn wyneb

newidiadau o'r fath.
A14. Er bod y Pwyllgor yn croesawu'r camau gan Ysgrifennydd y Cabinet i annog disgyblion mewn modd mwy priodol ar gyfer cymwysterau yng Nghyfnod Allweddol 4, dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i unrhyw ganlyniadau anfwriadol ac effeithiau andwyol ar ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd mewn perygl o fethu â gallu astudio cymwysterau galwedigaethol hyd yn oed os dyma sydd fwyaf addas ar eu cyfer. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor erbyn diwedd 2018.
A15. Er bod y Pwyllgor yn deall y rhesymeg dros benderfyniad Llywodraeth Cymru i adolygu mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 yn 2017 a 2018, dylai Ysgrifennydd y Cabinet fyfyrio'n ofalus ar y neges y mae hyn yn ei chyfleu ynglŷn â gwerth cymwysterau galwedigaethol yn hytrach na chymwysterau cyffredinol, yn enwedig o ystyried ymrwymiad Llywodraeth Cymru i barch cydradd.Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor erbyn diwedd 2018
A16. Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa gamau a gymerwyd ganddi i leihau unrhyw effaith andwyol bosibl ar garfan haf 2018, yn enwedig disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a Phlant sy'n Derbyn Gofal, yn sgil y newidiadau i fesurau perfformiad yn 2017 a 2018.
Derbyn Mae'n bwysig nodi ein bod mewn cyfnod o newid mawr yn y system addysg yng Nghymru. O ran cymwysterau a gwerthuso perfformiad ysgolion, mae hwn yn gyfnod estynedig o bontio. Rwy'n benderfynol ein bod yn codi'r safonau ar gyfer pob un o'n dysgwyr ac rwy'n adolygu pob agwedd ar y system yn barhaus. Dyma pam rwyf wedi cyhoeddi cyflwyno'r 'mesurau interim' ar Gam 4 o 2019, a fydd yn ein symud i system fwy deallus o werthuso perfformiad gyda'r dysgwr wrth ei gwraidd, yn dilyn ar unwaith y diwygiadau a wnaed i fesurau rhwng 2016-18. Rhoddwyd dadansoddiad o ganlyniadau TGAU 2017 yn y papur tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor cyn ei sesiynau tystiolaeth yn gynharach yn y flwyddyn. Roedd y dadansoddiad hwn hefyd yn sail i drafodaeth yn fy Mwrdd Polisi Gweinidogol ym mis Mai. Er ei bod yn rhy gynnar i ymchwilio i'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys yn set ddata'r flwyddyn gyntaf yn erbyn y mesurau perfformiad diwygiedig a gyflwynwyd yn 2017, mae gwersi wedi'u dysgu a'u cymhwyso wrth i ni weithio i wella cydnerthedd yr holl ddysgwyr a sicrhau bod ysgolion wedi paratoi'n well. Ar ôl dadansoddi'r data o garfan haf 2017, roedd yn amlwg bod ysgolion a oedd yn herio'r duedd gydag dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio'n well na'u cyfoedion nad oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Cafodd y wybodaeth ei rhannu â'r cynghorwyr strategol Grant Datblygu Disgyblion a chydlynwyr Grant Datblygu Disgyblion-Plant sy'n Derbyn

Gofal i alluogi nodi arfer gorau i'w weithredu'n fwy eang. Gan weithio gyda'n gilydd byddwn yn cynnal ymarfer tebyg pan fydd canlyniadau 2018 yn hysbys er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r angen am ffocws penodol ar y grwpiau hyn o ddysgwyr i adeiladu eu cadernid a cheisio lliniaru unrhyw effaith andwyol.

Drwy gymharu data'n uniongyrchol ar gyfer 2016 a 2017 gellir gwneud rhagdybiaethau anghywir a dod i gasgliadau diffygiol. Gall newid o ran diffiniad i fesur perfformiad awgrymu newid mewn canlyniadau ond, mewn gwirionedd, efallai nad yw'r canlyniadau i unigolyn wedi newid, ond yr hyn sydd wedi newid yw sut mae'r data'n cael ei fframio. Cafodd y newidiadau i gyfansoddiad mesurau perfformiad yn 2017 eu cyflwyno i annog gwahanol ymddygiad ar lefel ysgol, a hefyd i osod data cyrhaeddiad mewn ffordd fwy priodol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol.

Blaenoriaeth Cymwysterau Cymru yn ystod dyfarnu yn yr haf yw cysoni safonau ar gyfer pob pwnc a thros amser. Yn fras, ni ddylai fod yn haws, nac yn fwy anodd, cael gradd benodol o un flwyddyn i'r nesaf. Gwahoddais Cymwysterau Cymru i'm Bwrdd Polisi Gweinidogol ym mis Mai i drafod sut maent yn sicrhau tegwch ac yn cynnal sefydlogrwydd cymharol dros amser. Mae newidiadau i fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 rhwng 2016 a 2018 wedi'u gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru (2012), yr ymgynghorwyd yn eang arno. Ceisiodd yr argymhellion wella canlyniadau i bob dysgwr.

Mae'r newidiadau dilynol wedi arwain at addasu ymddygiad ar lefel ysgol mewn ffyrdd bwriadol ac anfwriadol. Gellir gweld ehangu canfyddedig o'r bwlch ar gyfer Gwyddoniaeth. Ers 2018, mae'r gofynion penodol i Wyddoniaeth yn y mesurau perfformiad wedi canolbwyntio ar TGAU yn unig. Mae'r symudiad hwn i bwysleisio TGAU Gwyddoniaeth wedi arwain at lawer mwy o ddysgwyr yn cael eu cofrestru ar gyfer TGAU Gwyddoniaeth eleni, ac felly'n rhoi'r cyfle i lawer mwy o bobl ifanc i ennill cymhwyster sy'n eu galluogi i symud ymlaen i Safon Uwch a Phrifysgol a dilyn gyrfaoedd sy'n gysylltiedig â Gwyddoniaeth. Mae'n wir, fodd bynnag, bod ysgolion yn dal i allu cofrestru disgyblion ar gyfer cymwysterau galwedigaethol eraill os mai dyna'r opsiwn gorau i'r dysgwr unigol, ac y gall y cymwysterau galwedigaethol hynny gyfrif o hyd tuag at fesurau perfformiad yr ysgol y tu allan i'r rhannu penodol i bwnc.

Wrth i ni symud at y mesurau interim newydd, bydd y dull o ddefnyddio mesurau sy'n adlewyrchu cyrhaeddiad ar bob gradd yn cymell ysgolion i gynorthwyo pob grŵp o ddysgwyr i gyflawni eu canlyniadau gorau.

Mae'r mesurau interim yn llai rhagnodol ac yn fwy agored i ddewis lleol. Bydd y rhannau penodol i bwnc o'r Sgôr Pwyntiau Wedi'i Chapio yn cael eu lleihau i dri slot, sy'n golygu y bydd chwe slot heb gyfyngiadau ar gyfraniad cymwysterau nad ydynt yn TGAU, gan alluogi mwy o ryddid i ysgolion gyflwyno'r cwricwlwm sy'n fwyaf priodol i'r dysgwr unigol. Wrth symud ymlaen, bydd trefniadau gwerthuso a gwella newydd yn cael eu cyflwyno ochr yn ochr â'r cwricwlwm newydd. Drwy hyn rydym yn targedu'r pwysau yn y system atebolrwydd lle mae llawer yn y fantol ac yn bwriadu gwahanu atebolrwydd a gwerthuso ysgolion ar gyfer gwella. Bydd hyn yn helpu ysgolion i nodi lle mae angen gwirioneddol am gymorth, a chanolbwyntio ar hyn, heb gael eu harwain gan bwysau

mesurau perfformiad meintiol a welir y tu allan i'r cyd-destun.

Rwyf am fod yn glir iawn ein bod yn gwerthfawrogi cymwysterau galwedigaethol. Rydym eisiau'r gorau i bob dysgwr yng Nghymru, boed hynny'n gymhwyster TGAU neu alwedigaethol. Rydym yn disgwyl i ysgolion gynnig y cymwysterau mwyaf priodol i'w disgyblion; fodd bynnag, mae'n amlwg o'r data nad oedd disgyblion, mewn gormod o achosion, yn cael eu cyflwyno ar gyfer y cymhwyser mwyaf priodol. Bydd y trefniadau newyd rwyf wedi'u hamlinellu yn sicrhau bod disgyblion yn cael ey cyflwyno ar gyfer y cymhwyster sy'n gweddu orau iddynt.

Gan droi'n benodol at y sefyllfa o ran cymwysterau galwedigaethol o fewn mesurau perfformiad, gellir eu cyfrif o hyd mewn mesurau *trothwy* Cyfnod Allweddol 4 ond maent yn destun terfyn cyfanswm o 2017 (dim ond 40% o bob mesur trothwy a all gynnwys cymwysterau nad ydynt yn TGAU). Mae hyn yn sicrhau cydnabyddiaeth gymesur o gyrhaeddiad cymwysterau galwedigaethol, heb eu hatal yn llwyr. Eto, cafodd y dull hwn ei gyflwyno mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru, a gydnabyddodd fod cynnwys cymwysterau galwedigaethol mewn mesurau Cyfnod Allweddol 4 ar y pryd yn ystumio dewis ac yn cymell lefelau derbyn nad oeddent er budd gorau dysgwyr. Dylid nodi nad yw'r Sgôr Pwyntiau Wedi'i Chapio bresennol â therfyn ar gyfanswm y cymwysterau galwedigaethol a all gyfrif yn y mesur, y tu allan i'r pum slot penodol i bwnc nodwyd ar hyn o bryd, sy'n TGAU yn unig.

Yn amlwg, mae hwn yn faes cymhleth gyda chanlyniadau pellgyrhaeddol. Rwy'n falch ein bod, yng Nghymru, yn anfon neges glir bod cymwysterau galwedigaethol yn cael eu gwerthfawrogi, gyda'r cap ar eu gwerth o ran mesurau perfformiad ddwywaith yr hyn a gyflwynwyd yn Lloegr yn dilyn Adolygiad Wolf. Wrth symud ymlaen, rwy'n fodlon y bydd y trefniadau a ddisgrifiwyd gennyf yn rhoi rhwystrau a gwrthbwysau priodol yn eu lle. A chyn i'r trefniadau hyn ddod yn weithredol, bydd cyflwyno'r 'mesurau interim', yn dechrau mynd i'r afael â'r mannau lle mae pwysau yn y system ac yn mynd i'r afael â'r diwylliant ynghylch y defnydd o fesurau perfformiad, a deall eu diben, a sut i ddefnyddio'r data'n effeithiol.

Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor unwaith eto yn y flwyddyn newydd, yn dilyn cyhoeddi canlyniadau TGAU 2018 wedi'u dilysu ym mis Rhagfyr, gyda fersiwn ddiweddaraf y papur tystiolaeth a gyflwynais i chi yn gynharach eleni.

A17. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi unrhyw asesiad effaith a gynhaliwyd ganddi ynghylch ei phenderfyniad i newid mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 o 2018/19. Os na chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith, dylai Llywodraeth Cymru esbonio'r sail resymegol am hyn.

Derbyn

Dros y ddwy flynedd flaenorol rydym wedi bod yn ymgysylltu â phenaethiaid ysgolion uwchradd ledled Cymru, yn ogystal â sefydliadau allweddol megis undebau a chonsortia rhanbathol a chael trafodaehau gored gyda hwy mewn cyfarfoydd, cynadleddau

a gweithdai. Bu'r broses hon yn llawer ehangach nag un asesiad effaith. Mae'r mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 'interim' wedi'u llunio ar y cyd â'r sector ac maent yn ganlyniad trafodaethau dwys am bolisi a gwerthusiadau dros gyfnod o ddwy flynedd.

Un prif ffocws wrth ddiwygio ein dull interim o adrodd ar berfformiad Cyfnod Allweddol 4 fu dileu'r cyfyngiadau ar ysgolion drwy gyhoeddi cyfres o fesurau perfformiad sydd wedi pwysleisio'n anghymesur gyrhaeddiad un grŵp o ddysgwyr. Fel yr eglurwyd uchod, mae cyflwyno'r mesurau interim hyn yn ein symud yn agosach at y newidiadau mwy cynhwysfawr sy'n cael eu gwneud drwy ddatblygu trefniadau gwerthuso a gwella newydd, sydd wedi'u hadeiladu'n ofalus mewn partneriaeth â'r proffesiwn, llywodraeth leol, consortia, OECD a'r undebau, ac mae hyn yn parhau i fod yn wir.

A18. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau na fydd ei mesurau perfformiad interim newydd o 2019 ymlaen ar gyfer ysgolion yng Nghyfnod Allweddol 4 yn arwain at unrhyw ganlyniadau anfwriadol na goblygiadau penodol i garfanau penodol o ddisgyblion, gan gynnwys carfanau blynyddol sydd ymhlith y disgyblion cyntaf yr effeithir arnynt, Plant sy'n Derbyn Gofal a disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng ngoleuni'r amcan i gau'r bwlch cyrhaeddiad.

Derbyn

Fel y dywedais uchod, bydd y mesurau interim a'r gwaith cysylltiedig rydym yn ei wneud yn cynorthwyo ysgolion wrth gefnogi pob grŵp o ddysgwyr i gyflawni eu canlyniadau gorau a chyrraedd eu potensial unigol eu hunain. Rydym yn dileu'r cyfyngiadau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y system gwerthuso perfformiad sydd, er eu bod yn cymell ysgolion mewn un ffordd, mewn rhai achosion yn arwain at ymddygiad ychwanegol o ganlyniad i hynny sy'n gallu golygu bod dysgwyr dan anfantais. Bydd lleddfu'r pwysau a roddir ar ysgolion o ran canlyniadau cyrhaeddiad yn ynysig yn eu galluogi i ganolbwyntio ar anghenion eu dysgwyr unigol a dileu'r risg bod mesurau'n ysgogi ymddygiad gan arwain at ganlyniadau anfwriadol.

Mae'r mesurau perfformiad interim, y cyflwynir adroddiadau arnynt o 2019, wedi'u cynllunio i ddileu'r ffocws cul ar ddisgyblion sydd ar y ffin rhwng gradd C/D a newid y ffocws i godi ein dyheadau ar gyfer pob dysgwr.

Bydd disgwyl i bob ysgol hunanwerthuso yn erbyn sgoriau pwyntiau, ynghyd â'r sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys, ynghyd â pherfformiad bechgyn a merched, i sicrhau bod pob plentyn yn cyfrif a'n bod yn gwerthfawrogi cynnydd pob disgybl ar draws y garfan.

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r consortia, ac rydym yn parhau i wneud hynny, i gynorthwyo ysgolion wrth weithredu'r mesurau interim newydd.

Byddwn yn parhau i hwyluso dadansoddiad ysgolion o'u data cyrhaeddiad ac yn gweithio gydag arweinwyr data a pherfformiad

mewn consortia ac awdurdodau lleol i helpu i gynorthwyo ysgolion yn y gwaith hwn fel rhan o'u hunanwerthuso.

A19. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod dull gweithredu strategol, effeithiol ar waith o ran defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a phlant mabwysiedig, gan roi ystyriaeth briodol i werthusiad ICF Consulting ac yna gwneud unrhyw welliannau a nodir yn ôl yr angen.

Derbyn

O ystyried y rhwystrau penodol mae pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn aml yn eu hwynebu o ran eu haddysg, mae'r Grant Datblygu Disgyblion i blant sy'n derbyn gofal a phlant a oedd yn arfer derbyn gofal yn elfen hollbwysig o'r grant. Mae'r grant sy'n cael ei weinyddu gan y consortia yn helpu i sicrhau bod dull strategol yn cael ei gymryd o ran rheoli'r grant, sy'n bwysig o ystyried natur dros dro'r grŵp a hefyd anghenion acíwt rhai o'r dysgwyr hyn.

Mae gwerthusiad ICF Consulting yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd a chaiff ei gyhoeddi'n ddiweddarach yn yr hydref. Cyn cyhoeddi'r gwerthusiad, mae gwaith wedi dechrau gyda'r consortia ac awdurdodau lleol i ystyried sut y gellir datblygu'r model i sicrhau y manteisir i'r eithaf ar y cyfleoedd a gyflwynir gan y grant ar gyfer cefnogi'r dysgwyr hyn. Mae ffocws y gwaith hwn yn sicrhau bod y model mor effeithiol â phosibl a hefyd bod mwy o gysondeb cenedlaethol, ac nid yw hynny'n wir yn gyffredinol ar hyn o bryd. Disgwyliaf i'r gwaith hwn ddod i gasgliad cyn y flwyddyn ariannol mesaf, a bydd canfyddiadau ICF yn hanfodol wrth lywio'r gwaith.

A20. Ar y cyd â'r consortia rhanbarthol, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a phlant mabwysiedig yn cael ei ddefnyddio'n benodol ar gyfer y grwpiau hyn o ddisgyblion. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru ystyried agweddau perthnasol ar adroddiad gwerthuso ICF Consulting.

Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn, yn gyntaf ac yn bennaf, y dylai'r Grant Datblygu Disgyblion-Plant sy'n Derbyn Gofal gael ei ddefnyddio ar gyfer y rhai y bwriedir iddynt fod yn fuddiolwyr uniongyrchol. Hynny yw, plant sy'n derbyn gofal a phlant a oedd yn arfer derbyn gofal. Bydd ymyriadau unigol a gyllidir drwy'r grant, y dylid eu rhoi ar waith i ddiwallu anghenion a nodwyd unigolyn neu grwpiau o ddysgwyr, dim ond ar gael ar gyfer y buddiolwyr uniongyrchol hynny. Fodd bynnag, mae'n wir bod llawer o'r ymyriadau dosbarth/ysgol gyfan a gweithgareddau meithrin gallu y mae'n hysbys eu bod o fudd i bobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal hefyd o fudd i garfan ehangach o ddysgwyr agored i niwed. Mae gweithgareddau sy'n ymwneud ag ymlyniad ac ACE, y clywodd y Pwyllgor amdanynt yn ystod ei sesiynau casglu tystiolaeth, yn enghreifftiau o hyn ac maent wedi'u rhoi ar waith gan gonsortia a chawsant eu croesawu. Mae hyn yn ddefnydd effeithiol a phragmatig o'r grant, gan sicrhau'r effaith a'r gwerth mwyaf

posibl ar gyfer y cyllid ac o fudd i'r grŵp ehangaf posibl o ddysgwyr.

Nid wyf wedi fy argyhoeddi ei bod yn briodol cyfyngu ar y dull hwn. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod y risg o orymestyn neu wanhau'r cyllid a chaiff hyn ei ystyried fel rhan o'r gwaith sy'n mynd rhagddo i adolygu'r model Grant Datblygu Disgyblion-Plant sy'n Derbyn Gofal presennol. Wrth gwrs, caiff unrhyw ganfyddiadau o'r gwerthusiad annibynnol ar y pwynt hwn eu hystyried.

A21. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ar frys sut y gellir defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i wella ymgysylltiad Plant sy'n Derbyn Gofal â'u haddysg, gan gynnwys cyfraddau presenoldeb a chyfraddau gwahardd.Dylai hyn ystyried casgliadau gwerthusiad ICF Consulting.

Derbyn

Mae'r safbwynt uchod a amlinellwyd mewn ymateb i argymhellion 11 a 12 mewn perthynas â dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yr un mor berthnasol i blant sy'n derbyn gofal a phlant a oedd yn arfer derbyn gofal. Caiff unrhyw ganfyddiadau perthnasol o werthusiad ICF Consulting eu hystyried yng nghyd-destun y gwaith parhaus a amlinellwyd uchod.

A22. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu data ar gyrhaeddiad Plant sy'n Derbyn Gofal drwy gydol oes y Grant Datblygu Disgyblion a'r goblygiadau posibl yn sgil newid mesurau perfformiad. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei hasesiad o hyn, ac ystyried sut y gall y Grant Datblygu Disgyblion gael mwy o effaith o ran gwella canlyniadau addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal.

Derbyn

Rwy'n cytuno bod yn rhaid i ni barhau i adolygu'r Grant Datblygu Disgyblion a bod yn fodlon ei fod yn cyflawni'r effaith fwyaf bosibl o ran cynorthwyo canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal a phlant a oedd yn arfer derbyn gofal. Mae'r gwerthusiad sydd ar y gweill yn garreg filltir bwysig a byddwn yn ystyried yn llawn argymhellion yr adroddiad hwnnw yng nghyd-destun y gwaith rwyf wedi'i ddisgrifio er mwyn adolygu'r model Grant Datblygu Disgyblion-Plant sy'n Derbyn Gofal.

Rwyf wedi ymrwymo i ddiweddaru'r papur tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ym mis Mawrth ac i ysgrifennu atoch gyda hyn yn y Flwyddyn Newydd. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried i ba raddau y gall y papur hwn gynnwys plant sy'n derbyn gofal hefyd.

A23. Dylai Llywodraeth Cymru ymestyn y Grant Datblygu Disgyblion i gynnwys plant sydd wedi bod mewn gofal am unrhyw gyfnod sylweddol yn eu bywydau. Dylai Llywodraeth Cymru ariannu dyraniadau i'r consortia rhanbarthol yn unol â hynny a sicrhau bod y consortia hefyd yn targedu'r Grant Datblygu Disgyblion at y disgyblion hyn. Wrth wneud hyn, dylai Llywodraeth Cymru benderfynu beth sy'n cyfrif fel cyfnod sylweddol, gan gynnwys ystyried awgrym y Pwyllgor, sef unrhyw gyfnod o 13 wythnos neu fwy, fel y defnyddir wrth benderfynu cymhwystra plant sydd wedi bod mewn gofal ar gyfer gwasanaethau ôl-ofal.
Derbyn mewn Egwyddor Er fy mod yn derbyn y rhesymeg y tu ôl i'r argymhelliad; mae ystyriaeth drawslywodraethol bellach yn ofynnol er mwyn penderfynu a yw'n ymarferol ai peidio. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion weithio gyda'u cymheiriaid yn yr Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwybodaeth a Dadansoddi i ddeall y goblygiadau a fyddai'n deillio o weithredu argymhelliad y Pwyllgor. Dylwn ddweud, os ystyrir bod gweithredu'r dull hwn yn ymarferol, ni fyddai'n weithredol tan fis Ebrill 2020 oherwydd bod dyraniadau eisoes wedi'u cadarnhau ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol a'r blynyddoedd ariannol nesaf.
A24. Dylai Llywodraeth Cymru roi dull ar waith o'r flwyddyn academaidd 2018/19 i alluogi rhieni i hysbysu ysgolion pan fydd eu plant yn blant mabwysiedig a chasglu'r wybodaeth honno a'i hychwanegu at gofnod ysgol y plentyn.Yna dylid defnyddio'r wybodaeth hon i dargedu cymorth o dan y Grant Datblygu Disgyblion tuag at ddisgyblion y gwyddys eu bod yn blant mabwysiedig ac i alluogi canlyniadau unigol disgyblion sy'n blant mabwysiedig i gael eu monitro mewn modd tebyg i Blant sy'n Derbyn Gofal.
Derbyn mewn Egwyddor Er fy mod yn derbyn yn llawn y rhesymeg y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, mae angen ystyried y goblygiadau ymarferol a'r cymhlethdodau'n drylwyr. Yn arbennig, bydd angen ystyried goblygiadau'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol diweddar cyn mynd ati i gasglu data o'r natur hon. Fodd bynnag, yn barod ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd rwyf wedi ysgrifennu at bob pennaeth, drwy gylchlythyr Dysg, yn amlygu y gall plant mabwysiedig wynebu rhwystrau i ddysgu weithiau a sut mae'n bwysig bod ysgolion yn gwybod pwy yw eu plant mabwysiedig er mwyn iddynt allu rhoi cymorth priodol ar waith. Yn fy llythyr, gwneuthum yn glir ei bod yn hanfodol bod ysgolion hefyd yn cydnabod yn glir y bydd hwn yn fater sensitif i rai rhieni mabwysiadol a rhaid i'r camau gweithredu a gymerir ganolbwyntio ar y plentyn a chyda chymorth a chytundeb rhieni. Byddwn yn parhau i adolygu'r mater hwn a thrafod sut y gallwn chwalu unrhyw rwystrau pellach.

A25. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn ariannu dyraniadau'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a phlant mabwysiedig i bob consortiwm rhanbarthol fesul Plentyn sy'n Derbyn Gofal a phlentyn mabwysiedig hysbys ym mhob rhanbarth. Lle nad yw union nifer y plant mabwysiedig yn hysbys, dylid defnyddio'r amcangyfrif gorau.
Gwrthod O ystyried y cysylltiadau rhwng yr argymhelliad hwn ac argymhelliad 24, nid yw'n ymarferol ei weithredu ar y pwynt hwn. Mae hynny oherwydd nad oes data addysg cadarn ar blant mabwysiedig ar gael ar hyn o bryd ar gyfer cyfrifiad o'r fath. Fodd bynnag, rwy'n fodlon parhau i adolygu'r mater hwn.
A26. Dylai Llywodraeth Cymru a'r consortia rhanbarthol fonitro canlyniadau addysgol disgyblion yn yr ysgolion a gymerodd ran yn Her Ysgolion Cymru a chymryd camau i liniaru unrhyw bosibilrwydd o golli momentwm yn yr ysgolion hynny a wnaeth gynnydd.
Derbyn Mae dulliau presennol yn eu lle i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn. Mae'r consortia'n monitro canlyniadau'r holl ysgolion. Bydd hynny ar sail y mesurau perfformiad interim o 2019 a, maes o law, yn unol â'r trefniadau gwerthuso a gwella newydd sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru yn monitro consortia drwy'r broses Herio ac Adolygu. Pan fo un o ysgolion Her Ysgolion Cymru yn peri pryder neu os bydd angen cymorth arni, darperir hyn drwy'r consortia.
A27. Dylai unrhyw raglen wella ysgolion yn y dyfodol redeg am gyfnod digonol o amser i'w alluogi i gael effaith barhaol, hirdymor, am fwy na thair blynedd fel arfer. Ni ddylai Llywodraeth Cymru ddirwyn rhaglen fel Her Ysgolion Cymru i ben, heblaw bod amgylchiadau eithriadol, cyn cael gwybod canlyniadau unrhyw werthusiad a gomisiynwyd ganddi.
Derbyn mewn egwyddor Er fy mod yn derbyn y rhesymeg y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, ac y byddwn fel egwyddor yn cefnogi rhaglenni gwella hirdymor sy'n rhedeg yn unol â gwerthusiadau, mae'n anochel bod yn rhaid i benderfyniadau o'r fath gael eu gwneud ar sail fesul achos
A28. Dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd â'r consortia rhanbarthol, ymgysylltu â'r bobl allweddol sy'n ymwneud â chyflwyno Her Ysgolion Cymru, gan gynnwys yr Athro Mel Ainscow i drafod y gwersi y gellid eu dysgu o'r rhaglen a

mentrau eraill i wella ysgolion, ac yna cymhwyso hyn yn fwy cyffredinol ar draws yr holl ysgolion y mae angen eu gwella.
Derbyn Mae cadw'r arbenigedd a rhannu'r dysgu o Her Ysgolion Cymru wedi bod yn floc adeiladu pwysig yn ein hagenda gwella ysgolion. Er enghraifft, mae trosglwyddo gwybodaeth a phontio staff, wedi bod yn arbennig o bwysig ac rwy'n falch bod nifer o unigolion allweddol Her Ysgolion Cymru yn dal i weithio yn y system. Er enghraifft, mae Syr Alasdair Macdonald (cyn-eiriolwr Her Ysgolion Cymru) yn parhau i weithredu fel ein Heiriolwr Codi Cyrhaeddiad ac mae llawer o gyn-gynghorwyr Her Ysgolion Cymru wedi'u cadw yn y consortia, gan sicrhau bod eu gwybodaeth a'u profiad yn cael eu trosglwyddo i'r gwaith gwella ysgolion o ddydd i ddydd. Rwy'n cytuno ei bod yn hanfodol bwysig ein bod yn dysgu o raglenni blaenorol er mwyn sicrhau gwelliant parhaus yn y dyfodol ac rwyf wedi gofyn i'm huwch-swyddogion barhau â'r ddeialog gydag unigolion a sefydliadau allweddol a fu'n rhan o Her Ysgolion Cymru yn y gorffennol. Rydym hefyd yn edrych ymlaen yn ogystal ag yn ôl – rydym yn adeiladu gallu yn y system a bellach yn ymgysylltu drwy amrywiaeth ehangach o randdeiliaid, gan gynnwys yr OECD.
A29. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro a gwerthuso'n fanwl sut y mae consortia rhanbarthol yn darparu her i ysgolion y mae angen eu gwella ac yn eu cynorthwyo, yn enwedig y rhai a gymerodd ran yn Her Ysgolion Cymru. Dylai hyn gynnwys gofyn i Estyn gynnwys hyn yn ei arolygiadau o'r consortia rhanbarthol a'i waith monitro.
Derbyn Mae'r broses Herio ac Adolygu yn galluogi Llywodraeth Cymru i adolygu cymorth consortia ar draws y rhanbarth, yn rhanbarthol a thrwy fanylu ar ysgolion unigol lle bo angen, er enghraifft o ran Ysgolion sy'n Peri Pryder. Byddwch yn ymwybodol bod adroddiad ar yr adolygiad o Estyn wedi'i gyhoeddi ym mis Mehefin. Cafodd yr adolygiad ei gomisiynu gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi i benderfynu ar oblygiadau ein diwygiadau ar rôl yr Arolygiaeth yn y dyfodol. Mae fy swyddogion yn gweithio gydag Estyn a'r system addysg ehangach i ystyried yr argymhellion a'u goblygiadau ar gyfer ein proses ddiwygio. Bydd cyfnod o ymgynghori ffurfiol ac yn anffurfiol gyda rhanddeiliaid i gasglu barn ar yr argymhellion.
A30 Dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu pa mor ddigonol yw cyllidebau ysgolion ac ystyried sut mae hyn yn effeithio ar ystyriaeth ysgolion o gyllid wedi'i dargedu, megis y Grant Datblygu Disgyblion, a'r defnydd ohono.
Derbyn Er fy mod yn derbyn y rhesymeg y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, mae'n bwysig nodi nad yw Llywodraeth Cymru yn cyllido ysgolion

yng Nghymru yn uniongyrchol. Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am gyllid ysgolion, fel y nodir yn y gyfraith. Mae'r rhan fwyaf o gyllid a roddwn i Lywodraeth Leol er mwyn cynorthwyo awdurdodau wrth gyflawni eu dyletswyddau, heb ei neilltuo a chaiff ei ddarparu drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Cyfrifoldeb Awdurdodau Lleol, o'r holl ffynonellau cyllid sydd ar gael iddynt, yw pennu eu cyllidebau, gan gynnwys ar gyfer ysgolion a gwasanaethau cymorth ysgolion.

Rwy'n rhannu rhai o bryderon y Pwyllgor ar y mater hwn ac rwyf yr un mor effro i bryderon Awdurdodau Lleol ynghylch y sefyllfa gyllideb gyffredinol a'r heriau a grëwyd gan ymrwymiad hirfaith Llywodraeth y DU i galedi.

Byddwn yn parhau i adolygu digonolrwydd ein grantiau addysg wedi'u neilltuo, lle mae cyllid yn cael ei gyfeirio at ysgolion, a byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Leol i ddylanwadu ar benderfyniadau lleol ar y cyllid ar gyfer ysgolion. Rwy'n croesawu'n llwyr ymchwiliad arfaethedig y Pwyllgor i ddigonolrwydd cyllid ysgolion.

A31: Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu, ar sail unigol a chyfunol, restr o'r llinellau gwariant yn y gyllideb (BELs) o fewn y MEG Addysg sy'n cyllido codi safonau ysgolion yn bennaf, ar gyfer 2016-17, 2017-18 a 2018-19, yn ogystal ag ymrwymo i wneud hynny ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad hwn.

Derbyn

Fel rhan o waith craffu ar y gyllideb rydym eisoes yn darparu tablau cyllideb ar lefel Llinell Gwariant yn y Gyllideb i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ac o 2018-19 mae'r Gyllideb Ddrafft hefyd yn cael ei chyhoeddi ar lefel Llinell Gwariant yn y Gyllideb, rhywbeth y byddwn yn parhau i'w wneud am weddill tymor y Llywodraeth.

Mae ein Llinellau Gwariant yn y Gyllideb addysg yn glir i'w gweld ac mae'r cyllid ychwanegol a ddarparwn fel rhan o'n hymrwymiad i fuddsoddi £100 miliwn ychwanegol i godi safonau dros y tymor hwn yn cael ei gadw'n gyfan gwbl yn ei Llinell Gwariant yn y Gyllideb ei hun, sef y Llinell Gwariant yn y Gyllideb Codi Safonau Ysgolion. Mae dadansoddiad yn cael ei baratoi ar gyfer y Pwyllgor fel rhan o'n cyflwyniad tystiolaeth i graffu ar y gyllideb, a bydd hyn hefyd yn cynnwys gwybodaeth am 2019-20.

Mewn perthynas â'r MEG Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, nid yw cyllid a ddarperir i Lywodraeth Leol drwy setliad y Grant Cynnal Refeniw wedi'i neilltuo. Rydym yn cyhoeddi'n flynyddol ein Hasesiadau Gwario Safonol a'n Hasesiadau sy'n seiliedig ar Ddangosydd (IBA) i ddangos sut mae'r Grant Cynnal Refeniw yn cael ei gyfrifo ond rydym hefyd yn ei gwneud yn glir nad targedau gwario yw'r asesiadau hyn. Nid yw'r Setliad wedi'i neilltuo a'r IBA yw ein hasesiad o'r angen cymharol i wario ar draws yr holl awdurdodau ac ar draws yr holl wasanaethau ac maent yn cynnwys rhagdybiaeth ar incwm y Dreth Gyngor yn y dyfodol. Byddai'n anghywir dangos unrhyw neilltuo yn y cymorth Setliad. Rydym yn cyhoeddi gwybodaeth ar wahân am Wariant wedi'i Gyllidebu ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ysgolion a data alldro a byddwn yn parhau i wneud hyn.